

# PROTOCOL ARFER GORAU TPC 1A

## ESTYN TERFYNAU AMSER APÊL

### Cyflwyniad

1. Rhaid i barti sy'n apelio yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod Bilio (AB) yn y mathau canlynol o achosion, wneud hynny o fewn terfynau amser rhagnodedig wedi derbyn yr hysbysiad.
  - (a) Atebolrwydd y Dreth Gyngor - 2 fis
  - (b) Gostyngiadau'r Dreth Gyngor - 2 fis
  - (c) Hysbysiad Cwblhau'r Dreth Gyngor - 4 wythnos
  - (ch) Rhybudd Cosb y Dreth Gyngor - 2 fis
2. GELLIR gwrthod yr apêl os caiff ei gwneud y tu allan i'r terfynau hyn.
3. Mae'r rheoliadau'n caniatáu i'r Llywydd awdurdodi'r apêl i gael ei glywed y tu allan i'r terfynau amser penodedig lle mae'n fodlon bod y methiant oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth yr unigolyn hwnnw.

### Deddfwriaeth

- Atebolrwydd/Gostyngiadau'r Dreth Gyngor - Adran 16 o Ddeddf Gyllid Llywodraeth Leol 1992 (DGLL 1992)
- Hysbysiad Cwblhau'r Dreth Gyngor – Adran 17 o DGLL 1992 ac Atodlen 4A paragraff 4 o Ddeddf Gyllid Llywodraeth Leol 1988 (DGLL 1988)
- Rhybudd Gosb y Dreth Gyngor - Atodlen 3 paragraff 3 o DGLL 1992
- Rheoliad 29 o Reoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010 (OS 2010/713)

### Gweithdrefn

4. Rhaid gwneud cais am estyniad o derfynau amser yn ysgrifenedig i'r Llywydd a rhaid iddo gynnwys y rheswm/rhesymau dros beidio â gwneud yr apêl o fewn y terfynau amser penodedig.
5. Bydd Tribiwnlys Prisio Cymru (TPC) yn cadarnhau ei fod wedi derbyn y cais ac yn gwneud y trefniadau angenrheidiol i'r cais gael ei ystyried.
6. Pan fo'r parti wedi methu â chynnwys y wybodaeth ofynnol, bydd TPC yn ysgrifennu ac yn gofyn am y wybodaeth honno.
7. Wrth ystyried y cais bydd sylw yn cael ei roi i'r canlynol:
  - Pryd derbyniwyd rhybudd yr AB?
  - A hysbyswyd yr ymgeisydd o'r hawl i apelio a'r terfyn amser perthnasol?
  - A yw'r ymgeisydd wedi gweithredu'n rhesymol o dan yr amgylchiadau?
  - A yw'r ymgeisydd wedi darparu digon o brawf/rhesymau i gyfiawnhau'r

oedi, megis salwch, absenoldeb o'r cartref neu brofedigaeth?

- A oes angen gwybodaeth bellach gan yr ymgeisydd neu barti/partïon eraill i'r apêl?

### **Penderfyniad**

8. Cyhoeddir penderfyniad i'r ymgeisydd cyn gynted ag sy'n ymarferol.

### **Apêl Bellach**

9. Nid oes hawl bellach i apelio at TPC yn erbyn penderfyniad y Llywydd i wrthod y cais.